

Case Study



national
museum
wales
amgueddfa
cymru

Sector: GLAMs/NFP
Gwelededd a
Rheolaeth Dyfeisiau

**“Mae cyfranogiad
C-STEM wedi bod yn
hanfodol i ni o ran ein
helpu i adeiladu’r polisiau
hanfodion seiber yr ydym
yn eu defnyddio fel sail
i’n diogelwch.”**

**“Mae parodrwydd
C-STEM i ymgysylltu â ni
a gwybodaeth y tîm
technegol wedi bod yn
wych.”**

Tim Phillips

Rheolwr Diogelwch
Gwybodaeth
Amgueddfa Cymru

Amgueddfa Cymru yn cyflawni gwelededd 100% ledled ei rhwydwaith gyda C-STEM a Forescout

Mae Amgueddfa Cymru yn sefydliad nid er elw, sy’n gyfrifol am gadwraeth a churadu casgliad cenedlaethol Cymru. Mae ystâd yr Amgueddfa’n cynnwys wyth o safleoedd, saith amgueddfa ac un archif ganolog, ledled Cymru, sydd â gwaith celf ac arteffactau amrywiol a gwerthfawr. Mae’r Amgueddfa’n cyflogi 650 aelod staff yn y safleoedd hyn, ac mae ganddi hefyd dros 1,300 o wirfoddolwyr yn gweithio ar adegau amrywiol yn ystod y flwyddyn.

Mae tîm TG yr Amgueddfa yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl systemau a data’n ddiogel ym mhob rhan o’r ystâd. Mae angen iddynt fod â gwybodaeth glir a chywir am sefyllfa ddiogelwch pob dyfais ar y rhwydwaith, gan gynnwys dyfeisiau blaen y tŷ a fel arall, IoT a dyfeisiau OT sy’n monitro ac yn rheoli’r lleithder a’r gwres ar gyfer casgliadau amrywiol, arwyddion digidol a chamêâu CCTV.

Yr Heriau

Yr her sy’n wynebu sefydliad, megis yr Amgueddfa, yw sut mae diogelu nid yn unig ei ddata, ond hefyd gwerth miliynau o bunnoedd o asedau diwylliannol gydag adnoddau prin, yn enwedig o ran cyllideb ac adnoddau dynol.

Pan ofynnwyd iddo am rôl seiber-ddiogelwch yn y daith trawsnewid digidol, dywedodd Tim Phillips, Rheolwr Diogelwch Gwybodaeth yr Amgueddfa *“mae popeth yn dibynnu ar ddiogelwch a sefydlogrwydd y rhwydwaith.”*

Er mwyn goresgyn yr heriau, y peth cyntaf yr oedd angen iddynt ei wneud oedd deall beth oedd eisoes ar y rhwydwaith, ac felly beth roeddent yn ceisio ei reoli. Roedd gan yr Amgueddfa sawl system ar waith eisoes, oedd yn adrodd am sefyllfa’r rhwydwaith. Fodd bynnag, doedd dim un pwynt mynediad ar gael oedd yn rhoi gwelededd amser go iawn a chyflawn (gan gynnwys dyfeisiau nas reolir) o ran yr holl ddyfeisiau oedd wedi cysylltu â’r rhwydwaith. Fel tîm bychan gyda llawer o alw am ei amser a’i adnoddau, roedd hyn yn her.

Her arall oedd ceisio dod o hyd i ddatrysiad fyddai’n cynorthwyo’r tîm i leihau’r amser a’r ymdrech oedd eu hangen i gyflawni a chynnal achrediad cydymffurfiaeth rheoliadol. Eglura Phillips *“Roeddem yn awyddus i gael system fyddai’n cynnig cydymffurfiaeth wedi’i nodi fel proses barhaus o ddydd i ddydd, nid ar yr adeg cyflwyno’n unig.”*

Felly, roedd tîm TG yr Amgueddfa’n chwilio am ddatrysiad NAC, fyddai nid yn unig yn rhoi un pwynt mynediad o ran rheoli a gwelededd ledled y rhwydwaith ond hefyd fyddai’n gallu creu ymateb awtomataidd, wrth allu integreiddio gyda’r technolegau presennol am bris fforddiadwy.



Y Datrysiad

Ar ôl ymchwilio'r farchnad yn fanwl a dilyn proses ddethol llym oedd yn cael ei llywodraethu'n helaeth, dewiswyd technoleg Forescout CounterACT* a C-STEM**, fel y partner dylunio a chyflawni, i helpu'r Amgueddfa i gyflawni'r deilliannau busnes oedd eu hangen. Sicrhau gweledd llwyr a rheolaeth o'r rhwydwaith. Adlewyrchodd Phillips *"Doedd dim asiant i CounterACT, oedd yn golygu nad oedd angen i ni ddyrannu asiantau i'r dyfeisiau. Hefyd, roedd ganddo segmentiad deinamig a'r gallu i gael trwydded barhaol."*

Gan ddefnyddio proses ymgysylltu ddiarnheul C-STEM (Systemau a Thechnegau = Rheoli'n Effeithiol), roedd yr Amgueddfa'n gallu arddangos y datrysiad oedd yn addas i'r busnes a fyddai'n goresgyn yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu. Gyda chymorth parhaus C-STEM, reoddent hefyd yn gallu sicrhau y byddai gwerth busnes cynaliadwy'n cael ei wireddu. Roedd CounterACT yn gallu cynnig golwg unigol o'r rhwydwaith yn ei gyfanrwydd mewn amser go iawn, gan eu galluogi nhw i sicrhau bod pob dyfais yn cydymffurfio ac yn cael ei rheoli bob amser.

Nododd Mike Hatherall, Uwch-Beiriannydd yn C-STEM wnaeth weithio ar y prosiect hwn *"Mae Forescout yn ddatrysiad NAC delfrydol ar gyfer Amgueddfa Cymru gan ei fod yn hollol ddi-asiant ac yn integreiddio'n rhwydd gyda'r holl dechnoleg bresennol, wrth eu helpu i ennill Hanfodion Seiber"*.

Canlyniadau busnes ac effaith i Amgueddfa Cymru

Effaith C-STEM a CounterACT ar yr Amgueddfa yw bod llawer mwy o weledd o'r rhwydwaith bellach, sydd wedi'u galluogi i wella eu harferion diogelwch. Mae wedi gwneud y gwaith gweinyddol yn haws, ac wedi galluogi'r tîm TG i ganolbwyntio ei amser a'i ymdrech ar feysydd eraill.

Helpodd C-STEM yr Amgueddfa i osgoi unrhyw wrthdaro technolegol a bodloni gofynion seiber y busnes, drwy eu cynorthwyo nhw i ddatblygu model gweithredu, sy'n effeithlon ac sy'n cefnogi eu deilliannau trawsnewid digidol. Pan ofynnwyd iddo am fanteision defnyddio C-STEM fel y partner dylunio a chyflawni, dywedodd Phillips *"Mae parodrwydd C-STEM i ymgysylltu â ni a gwybodaeth fanwl y tîm technegol wedi bod yn wych, mae eu cyfranogiad wedi bod yn hanfodol i ni o ran ein helpu i adeiladu'r polisiau hanfodion seiber yr ydym yn eu defnyddio fel sail i'n diogelwch."* Dywedodd hefyd, *"Roedd ymgysylltiad C-STEM yng Nghymru a chyda'r sector diwylliannol yng Nghymru hefyd yn bwysig iawn i ni"*.

Achosion defnydd:

- ✓ **Rheoli asedau** Archwilio ac adrodd am bob dyfais mewn amser go iawn
- ✓ **Cydymffurfiaeth dyfeisiau** Rheolaeth a gweledd o bob dyfais TG/OT
- ✓ **Rheoli mynediad i'r rhwydwaith** Effeithiolrwydd cynaliadwy i amddiffyn yn erbyn tirweddau bygythiadau sy'n newid yn gyson
- ✓ **Segmentiad rhwydwaith** Segmentiad deinamig, sy'n diogelu buddsoddiadau technoleg newydd, hanesyddol a phwrpasol
- ✓ **Ymateb i** Awtomatiaeth ac ymateb syml a rhwydd

Nododd Phillips bod y rhain yn heriau cyffredin yn y gymuned amgueddfeydd, ac mae'n credu y byddai sefydliadau eraill yn y sector sy'n wynebu'r un heriau yn elwa ar werth C-STEM a CounterACT. Mae C-STEM wedi gweithio gydag amgueddfeydd eraill ac mae "bod â gwybodaeth am yr amgueddfa a'r amgylchedd yr ydym yn gweithio ynddo'n fuddiol iawn."

Ynghylch C-STEM a Forescout CounterACT

*Mae'r Forescout CounterACT yn ddatrysiad di-asiant, sy'n cynnig y gallu unigryw i weld dyfeisiau'n syth wrth iddynt gysylltu â rhwydwaith. Mae'n sbarduno ac yn rheoli rhannu gwybodaeth ymysg adnoddau diogelwch presennol, sy'n caniatáu i sefydliadau daclo seiber-wydnwch yn fwy effeithlon.

**Mae C-STEM yn bartner Gwasanaethau Proffesiynol Forescout achrededig a phrofiadol. Maent yn defnyddio technolegau sy'n arwain yn y diwydiant, a'u harbenigedd uchel iawn i alluogi sefydliadau i fanteisio i'r eithaf ar werth eu buddsoddiadau.

"Mae popeth yn dibynnu ar ddiogelwch a sefydlogrwydd y rhwydwaith."

"Pan gawsom weledd cychwynnol, roeddem yn gallu gweld yn syth bod mwy na'r disgwyl o ddyfeisiau ar y rhwydwaith."

Tim Phillips

Rheolwr Diogelwch

Gwybodaeth

Amgueddfa Cymru

**Profwch weledd
100% i chi eich hun**

**Trefnwch arddangosiad
gyda C-STEM heddiw**

www.c-stem.co.uk

0345 241 0000